



**OFFRWM
Y PASG
2017**

Disgleirio
fel Sêr

TREFN Y
GWASANAETH

Galwad i addoli

Os edrychwch i lawr, fe welwch y ddaear; os edrychwch i fyny, fe welwch y gorwel a'r haul neu'r sêr, efallai; os edrychwch yn ôl, fe welwch yr hyn allasai fod; os edrychwch ymlaen, fe welwch yr hyn all fod. Ond am y tro...

...bod yma sy'n bwysig.

Pawb: Arglwydd Iesu, dyma ni.

Emyn: Cff 425 *Agor ein llygaid i weled yr Iesu* (i'w ganu ar ein heistedd)

Croeso a chyflwyniad

Croeso i'r oedfa hon, lle byddwn yn cysegru Offrwm y Pasg ac yn clywed storïau am sut y mae Cronfa'r Genhadaeth Fyd-eang yn cefnogi cenhadaeth Duw mewn gwahanol rannau o'r byd. Mae'r storïau yn dod gan aelodau o Dîm Perthnasau'r Eglwys Fyd-eang ac mae pob un yn sôn am rywun sy'n Frodor mewn Penodiad Cenhadol. Pobl yw'r rhain sy'n gweithio yn eu gwledydd eu hunain, wedi'u penodi gan un o'n Partner Eglwysi ni yn y wlad honno ond dan nawdd Cronfa Genhadaeth Fyd-eang yr Eglwys Fethodistaidd ym Mhrydain. Mae pob brodor mewn penodiad cenhadol yn gweithio mewn amgylchiadau anodd a heriol ond, fel y dywed Paul yn yr Epistol at y Philipiaid, maent yn "disgleirio fel sêr" gan ddod â goleuni'r Crist atgyfodedig i'r sefyllfa honno.

Goleuwn gannwyll yn symbol o nerth goleuni Crist i chwalu rhwystrau'r tywyllwch a dod â gobaith i fyd anghenus.

— *Goleuir kannwyll fawr* —

Gweddïau

O Arglwydd ein Duw a'n creawdwr, daethost â goleuni o dywyllwch a pheri i'r haul, y lloer a'r sêr ddisgleirio yn yr awyr. Ti sydd wedi llunio'r ddaear a'r moroedd a'r cyfan sydd ynddynt a thi sy'n ein hadnabod ni oll wrth ein henwau.

Deuwn ger dy fron â chalonnau diolchgar, llawn rhyfeddod.

Pawb: Deuwn ac addolwn.

Arglwydd Iesu Grist, daethost i'n byd clwyfedig gan ddod ag iachâd a gobaith. Yn dy fawr gariad rhoddaist dy einioes yn aberth drosom. Trwy dy ras daethost â maddeuant ac agor y ffordd i'n cymodi ni â Duw.

Hiraethwn am dderbyn goleuni dy gariad heddiw.

Pawb: Deuwn, clodforwn di.

Ysbryd Sanctaidd Duw, sydd yn datguddio i ni wirionedd yr Arglwydd Iesu, ac sy'n peri i oleuni gras Duw ddisgleirio i'n calonnau. Ti sy'n ein cymell i gamu ymlaen mewn ffydd ac ymddiried yn yr unig wir Dduw.

Cydnabyddwn na allwn wneud dim hebot.

Pawb: Deuwn ac addolwn.

— *Ymunwn yn y weddi o gyffes* —

Cyffeswn nad ydym bob amser yn dewis bod yn bobl y goleuni.

Byddwn yn aml yn ceisio cuddio yn y cysgodion gan obeithio na fydd neb yn sylwi ar ein methiannau.

Methwn dderbyn goleuni Crist i'n calonnau ac mae tywyllwch o'n mewn.

Methwn adlewyrchu goleuni Crist i'r byd.

Arglwydd, bydd rasol wrthym.

Duw, maddau i ni.

Grist, adnewyddu ni.

Clywch y newyddion da. Mae Iesu wedi goresgyn grym y tywyllwch, anobaith a marwolaeth. Trwy ei atgyfodiad, cawsom ninnau obaith.

Pawb: Diolch fo i Dduw. Amen.

Gweddi'r Arglwydd

Darlleniad o'r Epistolau: Philipiaid 2:1-15

Emyn: *CFf 49 Diolch i ti, yr hollalluog Dduw*

Darlleniad o'r Efengyl: Mathew 5:13-16

Stori 1: Sandra Lopez yn sôn am waith y Parchedig Maria do Carmo Moreira Lima gyda throseddwr ifanc yn Rio de Janeiro, Brasil.

— *Goleuir cannwyll* —

Emyn: *CFf 228 Dad, dy gariad yn glir ddisgleiria*

Stori 2: Bunmi Olayisade yn sôn am waith Joanna Akyeampong gyda merched ifanc nad ydynt yn mynd i'r ysgol a rhai o blant y stryd yn Ghana.

— *Goleuir cannwyll* —

— *Eitem gan gôr (dewisol)* —

Stori 3: Steve Pearce yn disgrifio'r gwaith y mae Jennifer Jag Jivan, brodor mewn penodiad cenhadol, yn ei wneud i hyrwyddo heddwch ym Mhacistan.

— *Goleuir cannwyll* —

— *Myfyrdod byr ar y thema (dewisol)* —

Gweithgaredd creadigol: Ysgrifennu gweddi neu addewid ar seren wedi'i gwneud o bapur. Deuir â'r sêr i'r tu blaen i gyfeiliant cerddoriaeth.

Gweddiâu o eiriolaeth

O Dduw, ffynhonnell cariad a goleuni, gweddiwn dros y rhai sy'n dod â goleuni dy gariad di i fannau tywyll.

Gweddiwn dros y gwaith cenhadol sy'n parhau i ddigwydd drwy'r byd gyda chymorth Cronfa'r Genhadaeth Fyd-eang. Gweddiwn dros Dîm Perthnasau'r Eglwys Fyd-eang wrth iddynt adeiladu perthnasau â Phartner Eglwysi ac ymateb i geisiadau am weddi ac am gymorth ymarferol ac ariannol.

O Grist atgyfodedig, i dywyllwch byd anghenus,

Pawb: Disgleiried dy oleuni.

Gweddiwn dros waith y Parchedig Maria do Carmo Moreira Lima ymhlith troseddwy'r ifanc ym Mrasil, a diolchwn i ti am y gofal bugeiliol y mae'n ei roi iddyn nhw ac i'w teuluoedd. Gofynnwn i ti fendithio ei hymdrechion i wella amodau byw'r bobl ifanc a'r driniaeth y maent yn ei chael yn y sefydliadau ar gyfer troseddwy'r ifanc yn Rio de Janeiro.

O Grist atgyfodedig, i dywyllwch caethiwed,

Pawb: Disgleiried dy oleuni.

Gweddïwn dros waith Jennifer Jag Jivan yng Nghanolfan Astudiaethau Cristnogol Rawalpindi ym Mhacistan. Diolch i ti ei bod mor frwd dros ddefnyddio deialog i greu cyd-ddealltwriaeth. Gweddïwn y bydd y gwaith a wneir i sicrhau heddwch ymhlith pobl o wahanol grefyddau yn dwyn ffrwyth.

O Grist atgyfodedig, i dywyllwch rhaniadau a gwrthdaro,

Pawb: Disgleiried dy oleuni.

Gweddi dros waith cenhadaeth Duw yn ein gwlad ninnau

...

O Grist atgyfodedig, i dywyllwch ein hangen ni yng Nghymru,

Pawb: Disgleiried dy oleuni.

Yn enw Crist, Amen.

Derbyn yr offrwm a chysegru Offrwm y Pasg

Pawb i sefyll

Arweinydd: O Dduw cariad, a roddaist dy Fab er mwyn i'r byd gael gobaith,

Pawb: Deuwn â'n hoffrwm o gariad heddiw gan ofyn dy fendith di.

Derbyn ein rhoddion, ein gweddïau a'n bywydau oll a defnyddia bopeth yn dy wasanaeth.

Boed i bawb ganfod dy oleuni di lle bynnag mae mwyaf o'i angen.

Yn enw Crist, Amen.

Emyn i Gloi: *CFf22 Dan dy fendith wrth ymadael*

Y Fendith

Bendithied yr Arglwydd chwi a chadwed chwi;
llewyrched yr Arglwydd ei wyneb arnoch
a thrugarhaed wrthych;
dyrchafed yr Arglwydd ei wyneb arnoch
a rhodded i chwi dangnefedd.
(Numeri 6:24-26)

— *Byddai'n bosibl i gôr ganu wrth i'r gynulleidfa fynd allan* —

Paratowyd y gwasanaeth i'w ddefnyddio'n lleol gydag Offrwm y Pasg gan Ferched Methodistaidd ym Mhrydain (www.mwib.org.uk) ar ran Cronfa'r Genhadaeth Fyd-eang. Mae'r weithred hon o addoliad yn galluogi'r Eglwys Fethodistaidd ym Mhrydain ac Iwerddon i gyfrannu at waith y 65 Partner Eglwys dramor.

Gallwch anfon cyfraniad yn uniongyrchol i Gronfa'r Genhadaeth Fyd-eang trwy fynd i www.justgiving.co.uk/mcfworldmission neu anfon siec, taladwy i Gronfa'r Genhadaeth Fyd-eang, at: Fundraising

The Methodist Church

25 Marylebone Road

London NW1 5JR.

E-bost: missionfunding@methodistchurch.org.uk

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â gwaith Perthnasau'r Eglwys Fyd-eang, cysylltwch os gwelwch yn dda â:

Methodist Church House

Ffôn: 020 7486 5502

E-bost: enquiries@methodistchurch.org.uk

Gwefan: www.methodist.org.uk

.....



Merched Methodistaidd
ym Mhrydain



Yr Eglwys **Fethodistaidd**

Hawlfraint Ymddiriedolwyr dros Ddibenion yr Eglwys Fethodistaidd 2016

Rhif Elusen Cofrestredig 1132208